

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	13 MEHEFIN 2019
TEITL	BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO AMLINELLIAD O RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM 2019/20
AWDUR	DEWI MORGAN, PENNAETH CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o raglen waith y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod, hyd at Mehefin 2020, sydd wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.
- 1.2 Mae hyn yn gyfle i'r aelodau ystyried yr eitemau sydd i'w trafod yn ystod y cyfnod yma er mwyn cyflawni rôl y Pwyllgor o fewn Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor, a rhoi cyfle i'r aelodau baratoi fel bo'r angen.
- 1.3 Wrth gwrs, gall union ffurf y rhaglenni pwyllgor fod yn wahanol erbyn y cyfarfodydd, yn ddibynnol ar amgylchiadau ar y pryd. Gall hyn gynnwys materion sydd wedi codi mewn gwaith archwilio, yr angen i ystyried materion penodol yn y maes llywodraethu ehangach, neu faterion yn codi o rôl craffu'r Pwyllgor mewn perthynas â materion corfforaethol.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried cynnwys y blaen raglen, holi'r swyddogion am yr eitemau fel bo'r angen, cynnig sylwadau a nodi er gwybodaeth.